**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 29 MAI 2019 YN NHŶ HASTINGS, CAERDYDD.**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon); Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa);

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 13:30

**Ymddiheuriadau:**

## 1. Datganiadau o Fuddiant

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

## 2. Briff gan y Cadeirydd

2.1. Diolchwyd staff y Comisiwn a Chomisiynwyr eraill gan y Cadeirydd am eu holl gefnogaeth a'u gwaith yn ystod ei amser yn y Comisiwn, a dymunodd yn dda i bawb, gan hyderu y bydd y rhaglen arolygon yn cael ei chwblhau mewn modd effeithiol a phrydlon.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2019

3.1. Yn amodol ar rai mân ddiwygiadau, **penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ebrill 2019 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

## 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 21 Mai 2019 gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi..

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd, gan nodi'r mater i'w drafod yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a hefyd nodwyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- **(Mater 1)** Safonau'r Gymraeg

- **(Mater 2)** Hygyrchedd Adroddiadau ar Arolygon
- **(Mater 3) Y** Rhaglen Newid
- **(Mater 4)** Gwobr Iechyd y Gweithle Bach

4.3. **Nodwyd** y gwaith a gwblhawyd gan David Burley ar y prosiect TG hyd yn hyn ac fe'i diolchwyd gan y Cadeirydd.

## 5. Arolwg Etholiadol Sir y Fflint – Opsiynau Drafft

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 20 Mai 2019 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 1 – Opsiwn 3, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Ffynnongroyw, Gronant, Mostyn, Trelawnyd and Gwaenysgor, a Chwitffordd

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:
- Mae'n gwella'r amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n cadw wardiau un aelod mewn ardal wledig
- Mae'n cymryd i ystyriaeth y gwahaniaeth rhwng ardaloedd trefol ac ardaloedd gwledig.

5.3. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynigion Drafft ar gyfer Rhanbarth 2 – Opsiwn 4 (fel y'u diwygiwyd), sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Dwyrain Bagillt, Gorllewin Bagillt, Maes Glas, Canol Treffynnon, Dwyrain Treffynnon a Gorllewin Treffynnon

Cytunwyd ar y diwygiad i'r opsiwn hwn gan gynnig y bydd ward etholiadol Treffynnon yn cael ei chynrychioli gan 3 aelod yn lle'r ddau a gynigiwyd yn wreiddiol.

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:
- Mae'n gwella lefel gyffredinol y cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal
- Mae'n cadw ward un aelod
- Mae'r diwygiad yn mynd i'r afael â'r lefel amhriodol o amrywiant etholiadol a fyddai'n digwydd pe bai'r ward etholiadol Treffynnon a awgrymir yn cael ei chynrychioli gan 2 aelod.

5.4. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 3 – Opsiwn 2, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Brynffordd, Caerwys, Cilcain, Gwernaffield, Gwernymynydd a Helygain

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefelau'r amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n osgoi rhannu Cymunedau Cilcain a Gwernaffield.

5.5. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 4 – Opsiwn 2, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Argoed, New Brighton, Llaneurgain, a Northop Hall

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella lefelau'r amrywiant etholiadol yn sylweddol
- Mae'n mynd i'r afael â'r safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau gan Gyngor Cymuned Llaneurgain a Chymdeithas Ceidwadwyr Alun a Glannau Dyfrdwy.

5.6. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 5 – Opsiwn 2, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Dwyrain Shotton, Shotton Uchaf a Gorllewin Shotton

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Mae'n un o'r opsiynau a gyflwynwyd gan Gyngor Sir y Fflint
- Mae'n cadw ward un aelod
- Mae'n cydnabod bod y llinell reilffordd yn creu ffin glir rhwng Gorllewin Shotton a gweddill Shotton.

5.7. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 6 – Opsiwn 3, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Bwcle Dwyrain Bistre, Mynydd Bwcle, Bwcle Gorllewin Bistre a Bwcle Pentrobin

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Ceir ffiniau clir y gellir eu nodi'n hawdd
- Mae'n creu wardiau aml-aelod mewn ardal drefnol.

5.8. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 7 – Opsiwn 2, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Castell y Fflint, Y Fflint Cwnsyllt, Oakenholt y Fflint a Threlawny y Fflint

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Mae'n cadw ward un aelod
- Mae'n defnyddio un o'r newidiadau i ffiniau a awgrymir gan Gyngor Sir y Fflint.

5.9. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 8 – Opsiwn 1, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Canol Cei Connah, Golftyn Cei Connah, De Cei Connah a Chei Connah Gwepra

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol
- Dyma'r opsiwn a gyflwynir gan Gyngor Sir y Fflint.

5.10. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 9 – Opsiwn 3, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Broncoed yr Wyddgrug, Dwyrain yr Wyddgrug, De'r Wyddgrug a Gorllewin yr Wyddgrug

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol, heb ynysu etholwyr
- Mae'n defnyddio dau o'r newidiadau i ffiniau a awgrymir gan Gyngor Sir y Fflint.

5.11. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 10 – Opsiwn 3, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Aston, Penarlâg, Mancot, Queensferry a Sealand

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol

- Rhagwelir y bydd lefelau amhriodol o amrywiant etholiadol yn un o'r wardiau arfaethedig o fewn yr opsiwn hwn. Mae hwn yn fater y gellir ei ail-archwilio yn yr arolwg nesaf os gwireddir y ffigyrau rhagamcanol.

5.12. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 11 – Opsiwn 4, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Caergwrle, Kinnerton Uchaf, yr Hob, Coed-llai, Llanfynydd, Pen-y-ffordd a Threuddyn

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Mae'n gwella cydraddoldeb etholiadol yn yr ardal yn sylweddol
- Mae'n mynd i'r afael â'r safbwyntiau a dderbyniwyd mewn cynrychiolaethau gan Gyngor Cymuned Coed-llai a Phontblyddyn
- Nid yw'n creu ward tri aelod mewn ardal wledig.

5.13. Cytunodd y Comisiwn ar y Cynnig Drafft ar gyfer Rhanbarth 12 – Opsiwn 2, sy'n cynnwys y wardiau etholiadol canlynol:

Saltney Cyffordd yr Wyddgrug a Saltney Stonebridge

Nodwyd y rhesymau canlynol i gefnogi'r penderfyniad:

- Dyma'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r lefelau presennol o amrywiant etholiadol, heb ynysu etholwyr
- Mae'n mynd i'r afael â'r safbwyntiau a dderbyniwyd yn y mwyafrif o'r cynrychiolaethau ar gyfer yr ardal hon.

5.14. Cytunodd y Comisiwn ar y Trefniadau Canlyniadol ar gyfer y canlynol:

- Cyngor Tref Cei Connah
- Cyngor Tref y Fflint – 5 Cynghorydd Tref ar gyfer Cwnsyllt
- Cyngor Tref yr Wyddgrug

5.15. Ystyriodd y Comisiwn enwau'r wardiau etholiadol a chytunwyd y bydd yr enwau wardiau etholiadol arfaethedig yn cael eu hanfon at Gomisiynydd y Gymraeg ar gyfer sylwadau.

## 6. Arolwg Etholiadol Sir Gaerfyrddin – Adroddiad Terfynol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Mai 2019 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn yr enwau a argymhellwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg.

6.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad, yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau ar y broses Sicrhau Ansawdd.

6.4. Yn ogystal, cytunodd y Comisiwn ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Asesiad o Effaith Polisi'r Gymraeg ar gyfer Sir Gaerfyrddin.

## 7. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risg

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Mai 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

7.2. Nodwyd bod angen diweddaru'r dyddiadau gweithredu ar gyfer dau o'r camau lliniaru mewn perthynas â recriwtio Swyddogion Arolygon ychwanegol o dan Risg CR2. **Cytunwyd** y bydd y dyddiadau yn cael eu diweddaru i ddangos dyddiadau dechrau'r Swyddogion Arolygon ychwanegol.

7.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

## 8. Adroddiad ar y Gyllideb

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 29 Mai 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

8.2. Nododd y Comisiwn mai'r sefyllfa ar ddiwedd mis Ebrill 2019 oedd tanwariant o £19.4K. Roedd y tanwariant hwn bron yn gyfan gwbl o ganlyniad i gostau staff a oedd yn llai na'r amcangyfrif oherwydd bod nifer y Swyddogion Arolygon ar waith yn llai na'r disgwyl. Fodd bynnag, rhagwelwyd y bydd newidiadau diweddar i'r strwythur staff yn defnyddio rhywfaint o'r tanwariant.

8.3. **Nodwyd** yr adroddiad.

## 9. Adroddiad Cynnydd ar Arolygon

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

9.2. Ni chodwyd unrhyw newidiadau'u i'r risgiau presennol.

9.3. **Nodwyd** cynnwys yr adroddiad.

## 10. Adroddiad Blynyddol ar y Gymraeg

10.1. Ystyriodd y Comisiwn yr Adroddiad Blynyddol a nododd y cynnydd ers i'r Adroddiad ar y Gymraeg cyntaf gael ei gyhoeddi gan y Comisiwn y llynedd.

10.2. Ystyriwyd y posibilrwydd o wahodd y Comisiynydd y Gymraeg newydd i swyddfeydd y Comisiwn yng Nghaerdydd.

10.3. **Nodwyd** cynnwys yr adroddiad.

## 11. Ystyried y Llythyr Cylch Gwaith – Adroddiad Hygyrchedd

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad gan y Prif Weithredwr.

11.2. **Nodwyd** cynnwys yr adroddiad a bydd opsiynau'n cael eu hystyried with fwrw ymlaen.

## 12. Calendr Digwyddiadau

12.1. Ni wnaed unrhyw ychwanegiadau i'r Calendr digwyddiadau.

12.2. **Nododd** y Comisiwn y calendr.

## 13. Unrhyw Fusnes Arall

13.1. Mae'r Prif Weithredwr wedi nodi rhai cyrsiau hyfforddiant a fydd yn fuddiol i'r Ysgrifenyddiaeth, ac wedi gofyn am ddyrannu cyllid ychwanegol ar gyfer hyfforddiant.

13.2. Cytunodd y Comisiwn y dylid ailddyrannu'r cyllid ar gyfer hyfforddiant a datblygu.

13.3. Nododd y Comisiwn ei ddiolch i Dave Burley am y gwaith rhagorol a wnaed ar brosiect Trawsnewid TG y Comisiwn.

13.4. Nododd y Comisiwn ei ddiolch i Owen Watkin am ei arweinyddiaeth a'i gyflawniadau fel Cadeirydd.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 25 Mehefin 2019**